Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

Pecyn swydd

# Aelod Bwrdd

**Dyddiad cau:** 5y.p, Dydd Gwener, 2 Hydref 2026


**Ymholiadau cyffredinol**

www.chcymru.org.uk

enquiries@chcymru.org.uk



Cofrestrwyd dan y Ddeddf Cwmnïau: 1985

Rhif Cofrestru: 2380564

Rhif Cofrestru Elusen: 1128527

# Am CHC

Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC) yw llais cymdeithasau tai yng Nghymru.

Ni yw'r corff aelodaeth ar gyfer cymdeithasau tai nid er elw a chwmnïau cymunedol cydfuddiannol sy'n cynrychioli 31 sefydliad nid er elw sy'n darparu tai cymdeithasol a gwasanaethau cysylltiedig. Mae 10% o boblogaeth Cymru yn byw yn ein cartrefi a rydym yn ymroddedig i ddarparu cartrefi fforddiadwy ansawdd uchel, mynd i'r afael â thlodi, a gwella bywydau.

Darllenwch fwy amdanom yma.

# Ein gwerthoedd

Caiff ein gwaith ei seilio ar gydweithio, uniondeb ac ymroddiad i gefnogi aelodau i ddarparu cartrefi diogel, fforddiadwy a chymunedau cryf. Rydym yn hyrwyddo buddiannau'r sector ar y cyd ac yn canolbwyntio ar y materion sydd bwysicaf i gymdeithasau tai a'r bobl a wasanaethant.

Fel ymddiriedolydd, byddwch yn ymuno â sefydliad a gaiff ei yrru gan genhadaeth, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sydd â ffocws ar sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer aelodau a chymunedau ledled Cymru. Mae ein gwerthoedd yn llywio'r ffordd y gweithiwn, sut ydym yn dylanwadu a sut y cefnogwn y sector i ymateb i heriau heddiw a'r dyfodol.

# Am y rôl

Ydych chi'n meddwl mewn ffordd wahanol, meddwl yn greadigol a meddwl am y dyfodol? Ydych chi eisiau gwneud cyfraniad ystyrlon i'r sector tai cymdeithasol yn Nghymru?

### YMUNWCH Â'N BWRDD!

Rydym yn edrych am aelodau newydd i'n Bwrdd â all ddod a dealltwriaeth, egni a meddwl strategol i helpu CHC i gefnogi cymdeithasau tai drwy heriau'r sector, gan sicrhau fod y sefydliad yn parhau yn gryf, cynaliadwy a dylanwadol.

## Bwrdd CHC: diben creiddiol

I gydweithio i sicrhau CHC fel corff cynrychioladol effeithlon a llwyddiannus drwy:

- Llunio hunaniaeth a chwmpas busnes sy'n ychwanegu gwerth
- Creu gweledigaeth glir, uchelgeisiol ac ymestynnol ar gyfer CHC a'r sector
- Herio a chefnogi'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i gyflawni allbynnau a chanlyniadau a ddiffiniwyd yn dda
- Diffinio'r awydd am risg a reoli risgiau mewn modd priodol
- Sicrhau fod strwythurau a phrosesau llywodraethiant yn gweithredu'n effeithlon
- Sicrhau iechyd ariannol parhaus y sefydliad

Fel aelod Bwrdd, byddwch yn gweithio mewn tîm, yn penderfynu ar gyfeiriad strategol Cartrefi Cymunedol Cymru, sy'n cynnwys gosod a monitro'r cynllun cyflenwi blynyddol. Disgwylir i chi:

- Baratoi ar gyfer, mynychu a chymryd rhan weithgar mewn cyfarfodydd bwrdd a strategaeth (a gynhelir yng Nghaerdydd fel arfer)
- Bod ag agwedd golegaidd at weithio gyda'r bwrdd a rhannu cyfrifoldeb am benderfyniadau a gymerir.
- Trin gwybodaeth a thrafodaethau'r Bwrdd fel bod yn gyfrinachol nes cewch eich hysbysu i'r gwrthwyneb.

### Am beth ydyn ni'n edrych?

Rydym yn edrych am Aelod Bwrdd newydd a all ddod â dealltwriaeth ffres, sgiliau dadansoddi cryf ac ymroddiad i gefnogi'r sector tai cymdeithasol yng Nghymru.

Croesawn geisiadau gan unigolion gyda phrofiad mewn **digidol a deallusrwydd artiffisial, neu gyfathrebu a/neu faterion cyhoeddus.** Nid yw'n bwysig i ni os cafwyd y profiad hwn ar lefel cyfarwyddwr – yr hyn sy'n cyfri yw eich gallu i gyfrannu'n adeiladol, meddwl yn strategol a dod ag arbenigedd perthnasol i'n trafodaethau.

Mae gennym ddau le gwag: un ar gyfer Aelod Bwrdd gyda chefndir mewn cymdeithas tai ac un ar gyfer unigolyn sy'n annibynnol o'r sector tai cymdeithasol. Nid oes angen i chii fod yn aelod cyfredol o fwrdd cymdeithas tai arall i wneud cais.

Rydym yn edrych am rywun sy'n hyderus wrth gyfathrebu, sy'n cydweithio ac a all

weithio'n effeithlon fel rhan o dîm. Byddwch yn gysurus yn gofyn cwestiynau, dadansoddi gwybodaeth a cheisio sicrwydd lle mae angen. Bydd creadigrwydd, chwilfrydedd a pharodrwydd i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r sector yn bwysig yn y rôl hon.

Nid yw profiad blaenorol fel aelod bwrdd yn hanfodol. Byddwn yn rhoi cefnogaeth i helpu'r ymgeiswyr llwyddiannus i gyflawni eu cyfrifoldebau a chyfrannu mewn modd cadarnhaol at waith y Bwrdd.

## **Manyleb Person** (di-dâl)

**Dyletswyddau statudol Aelod o Fwrdd CHC**

- Sicrhau fod CHC yn cydymffurfio gyda'i dogfen llywodraethiant (Memorandwm ac Erthyglau), cyfraith elusennau, cyfraith cwmnïau ac unrhyw ddeddfwriaeth neu reoliadau eraill perthnasol.
- Sicrhau fod gan CHC weledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd clir a'i fod yn datblygu strategaeth glir gydag amcanion mesuradwy i weithio tuag at gyflawni ei weledigaeth ac amcanion elusennol fel y'u diffinnir yn ei ddogfen llywodraethiant.
- Sicrhau sefydlogrwydd ariannol CHC a sicrhau y caiff adnoddau eu defnyddio'n llwyr i gyflawni ei amcanion.
- Cyfrannu'n weithgar ar rôl y Bwrdd yn rhoi cyfeiriad strategol cadarn i CHC, gosod polisi cyffredinol, diffinio nodau a thargedau a gwerthuso perfformiad ar drgedau a gytunwyd.
- Diogelu enw da a gwerthoedd CHC.
- Sicrhau y caiff CHC ei weinyddu'n effeithlon ac effeithiol.
- Diogelu a rheoli eiddo CHC a sicrhau y caiff cronfeydd eu buddsoddi yn cywir.
- Penodi, rheoli a chefnogi'r Prif Weithredwr a sicrhau fod gan y sefydliad staff priodol ac effeithlon.

Yn ogystal â dyletswyddau statudol, dylai unrhyw Ymddiriedolydd wneud defnydd llawn o unrhyw sgiliau, gwybodaeth neu brofiad penodol i helpu'r Bwrdd i wneud penderfyniadau da. Dangosol yn unig yw'r rhestr o ddyletswyddau uchod ac nid yw'n gynhwysfawr. Disgwylir i'r Ymddiriedolaeth gyflawni dyletswyddau ychwanegol o'r fath sy'n rhesymol gymesur gyda'r rôl.

### Ymrwymiadau

- **Cyfarfodydd:** Mae o leiaf bedwar cyfarfod bwrdd y flwyddyn gyda phob cyfarfod yn parhau am hyd at ddwy awr a dau gyfarfod Datblygu Bwrdd yn parhau am hyd at bump awr. Gellir trefnu cyfarfodydd ychwanegol fel sydd angen.
- **Paratoi:** Mae'r rôl yn cynnwys deall a dadansoddi papurau, disgwylir i'r gwaith paratoi gymryd tua hanner diwrnod.
- **Cymryd rhan:** Edrychwn am rywun sy'n awyddus i holi, gofyn cwestiynau a chymryd rhan go iawn. Mae'n anodd nodi nifer benodol o ddyddiau ar gyfer y rôl, ond rydym angen rhywun sy'n ymroddedig i wneud effaith ystyrlon.

## Cyfnod y penodiad

Bydd y cyfnod yn rhedeg am 3 blynedd gyda chyfle i sefyll am 3 blynedd bellach.

### Treuliau

Mae gan aelodau bwrdd hawl i hawlio ad-daliad am gostau teithio a chostau eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau'r bwrdd.

## Sut i wneud cais

Mae gan CHC ymrwymiad i feithrin amgylchedd gwaith cynhwysol ac amrywiol. Rydym yn cydnabod y cyfraniad unigryw y gall pob darpar ymgeisydd ei roi o ran eu haddysg, profiadau, barn, diwylliant, ethnigrwydd, rhywedd, cenedligrwydd, oedran, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a chredoau. Cynlluniwyd ein prosesau i fod yn hygyrch ac yn ddirwystr, gan annog pob ymgeisydd i wneud cais yn hyderus.

Os hoffech gael sgwrs anffurfiol am y rôl, cysylltwch â:

Stuart Ropke, Prif Weithredwr, ar 07590 034 071 neu e-bost Stuart Ropke

neu Gerraint Oakley, Cadeirydd Bwrdd CHC, drwy Beverley Davies

**I wneud cais am y rôl, gofynnir i chi gyflwyno'r canlynol:**

1. Ffurflen gais, y bydd angen i chi ei llenwi yn amlinellu mewn dim mwy na 1000 gair sut ydych yn cyflawni'r meini prawf profiad a nodir yn rhan 'am beth ydyn ni'n edrych?' ar y fanyleb swydd a pham eich bod eisiau'r rôl yma.
2. Mae'n RHAID i chi hefyd gynnwys CV byr yn ymwneud â'ch cais am y swydd hon (dim mwy na thair tudalen).
3. Ffurflen cyfle cyfartal. Ni chaiff y ffurflen hon ei defnyddio ar unrhyw gam yn y broses recriwtio a chaiff ei gwahanu oddi wrth eich ffurflen gais yn syth ar ôl ei derbyn. Bydd unrhyw wybodaeth a roddir ar y ffurflen hon yn parhau'n gyfrinachol a dim ond ar gyfer dibenion monitro i asesu effeithlonrwydd ein polisi cyfle cyfartal y caiff ei defnyddio.

Rhaid e-bostio'r ffurflen wedi ei llenwi, CV a ffurflen cyfle cyfartal wedi eu marcio yn Breifat a Chyfrinachol – Aelod Bwrdd at Recruitment Mailbox erbyn 5y.p, 2 Hydref 2026.

Caiff pob ffurflen eu cadw am chwe mis yn unol ag arfer gorau i sicrhau y gallwn roi adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus ac i gefnogi'r sefydliad pe byddid yn dod â hawliad yn ei erbyn. Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais ar ôl i chi ei lenwi.

- Caiff rhestr fer ei llunio ar 7 Hydref 2026
- Cynhelir cyfweliadau ar 19 Hydref 2026. Bydd opsiynau cyfweliad wyneb yn wyneb neu gyfweliad rhithiol.

Wedyn caiff argymhelliad ei wneud i'r Bwrdd llawn i gymeradwyo'r penodiad cyn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 24 Tachwedd 2026.

Unwaith y'i cymeradwywyd gan y Bwrdd, bydd aelodau yn cymeradwyo'r penodiad yn ffurfiol yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Bydd gan y sawl a benodir hawliau pleidleisio llawn fel aelod o'r Bwrdd unwaith y'i cymeradwywyd a bydd eu presenoldeb yn cyfrannu at gworwm cyfarfod.

Gofynnir i chi nodi na allwch wneud cais os oes aelod cyfredol o Fwrdd CHC o'ch sefydliad.

Mae cynrychiolaeth o'r sefydliadau canlynol ar y Bwrdd ar hyn o bryd:

- Cartrefi Cymuned Caerdydd
- Tai Dewis Cyntaf
- Cymoedd i Arfordir
- Tai ClwydAlyn
- Cartrefi Cymoedd Merthyr
- United Welsh
- Trivallis

## Mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn ymroddedig i gydraddoldeb ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth

Gofynnir i chi nodi mai dim ond cyn cyfweliad y caiff CVs eu hadolygu ac na chânt eu hystyried fel rhan o'r broses ddechreuol o lunio rhestr fer. Fodd bynnag, pe byddid yn derbyn nifer fawr o geisiadau, gellir defnyddio CVs i gynorthwyo wrth lunio rhestr fer ar gyfer cyfweliadau. Caiff gwybodaeth bersonol allweddol fel enw, oedran, sefydliad addysgol ac yn y blaen eu tynnu ymlaen llaw. Caiff gwybodaeth bersonol allweddol a gynhwysir mewn datganiadau personol hefyd ei thynnu cyn eu hystyried ar gyfer llunio'r rhestr fer ddechreuol. Byddem yn ddiolchgar pe gallai ymgeiswyr osgoi eu cynnwys yn y lle cyntaf.

Rhoddir croeso arbennig i geisiadau gan bobl anabl a phobl ddu a lleiafrif ethnig. Rydym yn gwarantu rhoi cyfweliad i'r ymgeiswyr hyn sy'n cyflawni'r isafswm meini prawf ar gyfer y swydd.

Rydym eisiau i chi gael bob cyfle i ddangos eich sgiliau, gallu a photensial. Gofynnir i chi gysylltu â ni os ydych angen unrhyw gymorth neu addasiadau rhesymol i'r broses gais.